

COFNODION

Dyddiad: 12 Mawrth 2002
Amser: 9 a.m.
Lleoliad: Ystafell A3.13

Yn bresennol: John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd
y Cynulliad

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar
yr agenda)

Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Fusnes y Cynulliad
Marc Wyn Jones Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Andrew Weekes, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd

1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

(i) BC72-02 (Terfynol) Dydd Mawrth 26 Chwefror 2002

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau cânt eu cyfieithu er mwyn eu cyhoeddi. **Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

(ii) BC78-02 (Drafft) Dydd Mawrth 5 Mawrth 2002

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar eu ffurf terfynol. **Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

3. Materion sy'n Codi (BC78-02 Dydd Mawrth 5 Mawrth 2002)

3.1 **Paragraff 3.1** Dywedodd Marion Stapleton bod copïau electronig o'r llythyr ar y defnydd o'r Drefn Weithredol ar gyfer gorchmynion amaethyddol amrywiol wedi eu hanfon at aelodau'r Pwyllgor. Fodd bynnag, nid oedd y llythyr wedi cyrraedd mewn pryd i gael ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod. Cytunwyd y byddai'r llythyr yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

3.2 **Paragraff 11.1** Gofynnwyd i Reolwyr Busnes drafod, gyda'u grwpiau priodol, y posibilrwydd o gynnal Cyfarfodydd Llawn rhwng 2pm a 6pm ar ddydd Mawrth a dydd Mercher. Trafodwyd y mater a chytunwyd i ddychwelyd at y mater yn eu cyfarfod cyntaf wedi gwyliau'r Pasg.

4. Is-ddeddfwriaeth

(a) Gorchmynion i'w hystyried

Dim

(b) Gorchmynion a wnaethpwyd o dan y Drefn Weithredol

BC80-02

4.1 Wrth gyfeirio at e-bost i'r aelodau gan Ysgrifenyddiaeth y Cabinet am ddau orchymyn amaethyddol a wnaethpwyd o dan y Drefn Weithredol, dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Busnes y Cynulliad bod angen gweithredu'r gorchmynion hyn ar unwaith. Dywedodd bod eglurhad ysgrifenedig i ddilyn. Croesawyd hyn gan y Pwyllgor.

4.2 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd a ellid, yn y dyfodol, gynnwys eglurhad gyda phob e-bost sy'n nodi bod y Drefn Weithredol wedi ei defnyddio. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i bob e-bost ar y defnydd o'r Drefn Weithredol gael eu hanfon o dan yr un pennawd. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'n ystyried yr awgrymiadau hyn yn fanwl dros wyliau'r Pasg.

5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

BC81-02

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y papur ar Benu Dyddiau ar gyfer Gwyliau'r Pasg.

6. Pwyllgorau

7. Busnes sydd i Ddod

(i) Busnes yr Wythnos Hon

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC84-02 oedd yn rhoi manylion am fusnes y Cynulliad y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos.

7.2 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'r drafodaeth ar Ystadau GIG, a drefnwyd ar gyfer y diwrnod hwnnw, yn cael ei gohirio gan bod y Pwyllgor Archwilio yn parhau i drafod y mater. Yn ei le, byddai Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon yn gwneud datganiad ar Hiliaeth a Chwaraeon. Byddai Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn gwneud datganiad ar Gynigion Llwyddiannus Cynllun Hybu Iechyd y Sector Gwirfoddol.

7.3 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, yn gwneud datganiad ar Gyllid Cyfalaf ar gyfer Darpariaeth Ail-brosesu Papur Gwastraff newydd yn Shotton, yn ogystal â'r busnes a drefnwyd ar gyfer dydd lau.

(ii) Datganiad Busnes Drafft

7.4 Dywedodd y Trefnydd y byddai busnes ar gyfer 16 Ebrill hefyd yn cynnwys cynnig i ddirprwyo swyddogaethau'r Ddeddf Digartrefedd i'r Prif Weinidog. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd a fyddai'n bosibl i'r Aelodau dderbyn eglurhad clir a hawdd i'w ddeall o'r pwerau a oedd yn cael eu dirprwyo cyn gynted â phosibl. Dywedodd bod David Lambert wedi paratoi model eisoes. Dywedodd Marion Stapleton bod y model wedi ei ddefnyddio yn y gorffennol ac y darperir eglurhad newydd cyn gynted â phosibl.

7.5 Gofynnodd Jonathan Morgan os oedd datganiad i gael ei wneud am y cyhuddiadau diweddar a wnaethpwyd yn erbyn Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'n amhriodol i wneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn gan bod Swyddfa'r Llywydd yn ystyried p'un ai i drosglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Safonau.

7.6 Tynnodd Jonathan Morgan sylw at y ffordd anarferol y cyhoeddwyd y cyllid ar gyfer cerddorfeydd siambr yng Nghymru a gofynnodd a ellid gwneud Datganiad. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad bod y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi egluro'r mater mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Diwylliant ar 5 o Ragfyr.

7.7 Dywedodd Jocelyn Davies y byddai hithau hefyd wedi gwneud cais am glywed y ddau ddatganiad hwn mewn Cyfarfod Llawn a'i bod wedi nodi atebion y Gweinidog.

7.8 Cyngor y Pwyllgor i Drefnydd y Cynulliad ar ei ddatganiad arfaethedig am drefnu Busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau ddydd Mawrth 19 Mawrth, dydd Mawrth 16 Ebrill a dydd Mawrth 23 Ebrill oedd, yn amodol ar y paragraffau blaenorol, y dylid mynd ymlaen fel yr amlinellwyd.

8. Materion sy'n cael eu cyfeirio o'r Cyfarfod Llawn

9. Adolygiadau i'r Rheolau Sefydlog

BC83-02

9.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y papur am adolygu'r Rheolau Sefydlog i ddileu'r ddarpariaeth am Gwestiynau Llafar i Bwyllgor y Ty.

Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth

10. Dyfarniad y Llywydd

11. Unrhyw fater arall

11.1 Dywedodd y Dirprwy Lywydd bod papur wedi ei baratoi a oedd yn rhoi amlinelliad o ddau ddewis gwahanol ar gyfer dileu'r slot yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer cwestiynau i Drefnydd y Cynulliad a'i gyfrifoldebau ar wahân i fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r ddau ddewis yn cael eu cyflwyno ar gyfer eu hystyried yn y cyfarfod nesaf.

Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth

YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR